

Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol Cwestiynau Cyffredin

Darperir atebion i gwestiynau a ofynnwyd yn ystod y digwyddiadau lansio Dyfarniadau Galwedigaethol diweddar isod. Rydym wedi aralleirio rhai cwestiynau neu wedi cyfuno rhai i osgoi ailadrodd. Mae'r cwestiynau wedi'u strwythuro i roi atebion i gwestiynau cyffredinol yn gyntaf, yna cwestiynau pwnc-benodol.

Os oes gennych gwestiwn sydd heb ei ateb yma, anfonwch neges e-bost at:

*qualifications@wjec.co.uk. Peidiwch ag anghofio cofrestru ar gyfer ein **diweddariadau pwnc-benodol** [yma](#).*

Datblygiad

Pwy gafodd ei ymgynghori wrth ddatblygu'r cymwysterau?

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar gyfer Dyfarniadau Galwedigaethol Lefel 1/2 CBAC ar 7 Mai a daeth i ben ar 30 Mehefin 2020. Cawsom ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid a wnaeth sylwadau ar p'un a fyddai pob cymhwyster yn paratoi dysgwyr ar gyfer astudiaeth yn y dyfodol ac ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.

Rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr enwebu eu hunain fel adolygwyr. Ar gyfer pob pwnc, gwnaethom gyflogi tri adolygwr i bob uned a gafodd eu dewis yn seiliedig ar leoliad daearyddol, math o sefydliad addysgol ac arbenigedd pwnc. Anfonwyd copïau o'r fanyleb ddrafft at adolygwyr pob uned. Gofynnwyd iddynt wneud sylwadau yn annibynnol ar y cynnwys arfaethedig o safbwynt athro yn cyflwyno'r cwrs a safbwynt dysgwr yn sefyll y cwrs. Coladwyd eu sylwadau a chawsant eu defnyddio i ddiwygio cynnwys yr unedau yn unol â'r sylwadau hynny. Yna, defnyddiwyd y cynnwys manyleb hwn fel sail ar gyfer drafft cyntaf y DAE. Anfonwyd copïau o'r DAE drafft at adolygwyr pob uned ynghyd â chynnwys terfynol yr unedau o'r fanyleb. Eto, gofynnwyd iddynt wneud sylwadau yn annibynnol ar y cynnwys arfaethedig o safbwynt athro yn cyflwyno'r cwrs a safbwynt dysgwr yn sefyll y cwrs.

A luniwyd y cymwysterau hyn i'w defnyddio yn lle cymwysterau TGAU neu Safon Uwch?

Cymwysterau Lefel 1/2 yw ein Dyfarniadau Galwedigaethol ac maent wedi'u llunio i'w sefyll ar y cyd â chymwysterau TGAU, neu yn eu lle.

A yw manyleb 'ddrafft' yn golygu y gallai newid?

Rydym yn cwblhau'r Manylebau nawr ac nid ydym yn disgwyl iddynt newid ond byddant yn aros fel 'drafft' tan y byddant wedi'u Dynodi gan Cymwysterau Cymru.

Rwy'n deall bod y manylebau dan sylw yn rhai ar gyfer CA4 – a fydd dyfarniad CA5 yn cael ei gynnig i ddisgyblion hefyd?

Rydym yn gobeithio datblygu cymwysterau Lefel 3 ar gyfer Cymru yn fuan.

Cynllunio

Rydym yn rhedeg cwrs CA4 tair blynedd; pryd bydd y Manylebau yn cael eu rhannu fel y gallwn gynllunio addysgu o fis Medi eleni?

Bydd y Manylebau drafft yn cael eu cyhoeddi yn haf 2021. Byddwn yn rhoi gwybod i'n canolfannau drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a bwletinau e-bost ond edrychwch ar y [wefan](#) o fis Awst 2021. Noder, bydd y manylebau terfynol yn cael eu cyhoeddi gyda'r cymwysterau wedi'u cymeradwyo yn hydref 2021.

A ellir cyflwyno'r cwrs hwn o fewn un flwyddyn?

Lluniwyd y cymwysterau i'w cyflwyno dros ddwy flynedd ond gall athrawon addasu hynny i fod yn addas i ddulliau eu canolfan nhw.

A fydd y cymwysterau CA4 cyfredol yn dal i fod ar gael pan fydd y cymwysterau newydd hyn wedi'u lansio?

Na, mae'r gyfres gyfredol o Ddyfarniadau Galwedigaethol yn cael ei thynnu'n ôl. Y cyfle asesu olaf ar gyfer y gyfres gyfredol yw Haf 2023 gyda chyfle i ailsefyll yr arholiad allanol ym mis Ionawr 2024.

Noder, er nad oedd Cyfathrebu Busnes Byd-eang yn rhan o'r digwyddiadau lansio hyn, bydd Manyleb newydd ar gyfer y cymwysterau hyn ar gael hefyd i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2022.

Faint o oriau dysgu dan arweiniad sydd wedi'u dyrannu i bob cwrs?

Mae 120 o Oriau Dysgu dan Arweiniad wedi'u dyrannu ar gyfer y cymwysterau, sef yr un fath â TGAU. Rydym wedi llunio Canllaw Cyflwyno ar gyfer pob cymhwyster sy'n cynnwys amlinelliadau awgrymedig o'r cyrsiau sy'n rhannu'r 120 o oriau. Pob athro a chanolfan unigol fydd yn penderfynu sut y cyflwynir y cymwysterau ond dylai hyn fod yn fan cychwyn da ar gyfer cynllunio.

Os yw dysgwyr yn dechrau eu cwrs yn y flwyddyn academiaidd hon ac yn sefyll arholiadau yn 2023, pa fanyleb a ddefnyddir i'w hasesu?

Y fanyleb gyfredol.

A fydd cyfarfodydd pwnc-benodol fel y digwyddiadau lansio yn cael eu cynnal?

Bydd. Byddwn yn cynnal digwyddiadau pwnc-benodol yn nhymor yr hydref a byddwn yn hysbysebu'r rhain ar wefan [CBAC](#).

Gwnewch nodyn o'r dyddiad ar gyfer y digwyddiadau canlynol:

- Peirianeg: 30 Medi
- Gweithredu Digwyddiadau: 29 Medi
- Lletygarwch ac Arlwy: 22 Medi
- TGCh: 22 Medi
- Celfyddydau Perfformio: 30 Medi
- Busnes Adwerthu: 22 Medi
- Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi: 21 Medi

A oes recordiad o'r digwyddiad lansio? A oes gennym fynediad at y recordiad hwn?

Oes, mae'r recordiad ar gael [yma](#).

A yw sleidiau'r cyflwyniad ar gael?

Ydy, mae'r cyflwyniad PowerPoint o'n digwyddiad lansio ar gael [yma](#).

Beth am Adeiladu? Onid yw'r cwrs hwnnw am gael ei gynnal mwyach?

Bydd ein Dyfarniad Galwedigaethol Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig yn dal i fod ar gael yng Nghymru, fodd bynnag, mae Dylunio'r Amgylchedd Adeiledig a Chynnal a Chadw'r Amgylchedd Adeiledig yn cael eu tynnu'n ôl. Nid yw Adeiladu wedi'i gynnwys yn y datblygiad hwn gan fod angen i ni wneud gwaith pellach gyda chanolfannau yng Nghymru i gadarnhau pa newidiadau sy'n angenrheidiol o ystyried cyflwyno'r fanyleb TGAU Amgylchedd Adeiledig newydd.

Asesu

Os yw dysgwyr yn ennill gradd isel yn yr arholiad, a ellir codi'r radd drwy gyflawniad mewn unedau eraill?

Gellir. Mae ein Dyfarniadau Galwedigaethol newydd yn seiliedig ar farciau, felly os nad yw dysgwyr yn perfformio'n arbennig o dda mewn un uned, gellir gwneud iawn am hynny drwy berfformio'n well mewn uned(au) eraill.

A fydd y radd y mae'r dysgwr yn ei hennill yn yr uned fewnol yn dal i gael ei chyfyngu i'r radd isaf a enillwyd ar gyfer maen prawf asesu unigol?

Na fydd. Yn ein Dyfarniadau Galwedigaethol newydd, mae asesiadau mewnol yn seiliedig ar farciau ac yn gydadferol. Bydd gradd dysgwr yn yr uned(au) mewnol yn cael ei phennu ar sail ei berfformiad cyfannol ar draws yr asesiadau.

A yw dysgwyr Blwyddyn 11 yn gallu sefyll yr arholiad ym mis Ionawr a'i ailsefyll ym mis Mehefin?

Er y gall dysgwyr sefyll yr arholiad ym mis Ionawr, mae'r rheol derfynol newydd yn golygu bod rhaid i ddysgwyr sefyll yr asesiad allanol yn y **gyfres** y maen nhw'n cyfnewid (cwblhau'r cymhwyster)ynddi.

Gallen nhw gael ymgais ymarfer ym mis Ionawr, ond dim ond y canlyniad a gyflawnwyd ar yr adeg y byddant yn cyfnewid fydd yn cyfrannu at y radd derfynol (hyd yn oed os yw'r marc yn is na'r canlyniad a gyflawnwyd cynt). Fodd bynnag, os cofrestrir dysgwyr ar gyfer yr arholiad allanol ym mis Ionawr, a'u bod yn llwyddo yn yr arholiad, gellir eu cofrestru ar gyfer cyfnewid yn hwyr cyhyd â'u bod wedi cwblhau a chofrestru eu holl unedau mewnol hefyd.

A oes rhaid i fyfyrwyr lwyddo yn yr arholiad o hyd?

Nac oes Mae'r cymwysterau yn gydadferol felly gallant gyflawni'r cymhwyster hyd yn oed os ydynt yn methu yn yr arholiad. Os yw ymgeisydd yn methu ennill marc ar gyfer unrhyw dasg o fewn asesiad, gallai lwyddo o hyd cyhyd â'i fod yn ennill y nifer lleiaf o farciau sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr asesiad hwnnw yn gyffredinol. Felly, er enghraifft, os mai'r marc

lleiaf y mae ei angen i gyflawni Lefel 1 Llwyddiant yw 12, yna nid oes ots o le mae'r 12 marc hynny yn dod.

A fydd cyfle i fyfyrwyr ailsefyll ar draws yr holl gyrsiau galwedigaethol newydd?

Bydd. Ar ôl i ddysgwyr gyflawni canlyniad cymhwyster, gall ailsefyll yr uned a asesir yn allanol a'r unedau a asesir yn fewnol eto mewn cyfres ddiweddarach i wella ei ganlyniad ar gyfer y cymhwyster.

Gall dysgwyr ailsefyll yr arholiad heb fod angen ailsefyll yr unedau a asesir yn fewnol; ond, ni all dysgwyr ailsefyll yr unedau a asesir yn fewnol yn unig i wella eu canlyniad. Er mwyn bodloni'r gofynion asesu terfynol, rhaid i ddysgwyr sy'n ailsefyll unrhyw uned(au) mewnol ailsefyll yr arholiad hefyd ar yr un pryd a **dim ond** yr ymgais yn y gyfres y mae'r ymgeisydd yn cyfnewid y cymhwyster y gellir ei defnyddio wrth gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol.

A yw myfyrwyr yn gallu sefyll yr arholiad ym mis Ionawr a mis Mehefin a chyfnewid y canlyniad gorau?

Nac ydyn. Y marc sy'n cyfrif tuag at y radd gyffredinol yw'r marc a enillir yn yr arholiad yn y gyfres y mae'r ymgeiswyr yn cyfnewid ynddi.

A fydd angen cwblhau'r asesiad dan reolaeth mewn nifer penodol o oriau o hyd?

Bydd. Mae pob asesiad dan reolaeth a asesir yn fewnol yn nodi'r amser hiraf y dylid ei roi i ddysgwr i gwblhau'r asesiad. Mae hyn i sicrhau bod pob dysgwr sy'n sefyll cymhwyster penodol yn cael yr un faint o amser i wneud ei asesiadau.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu ein cyfres newydd o Ddyfarniadau Galwedigaethol, rydym wedi gweithio gydag athrawon i bennu'r nifer priodol o oriau y dylid ei ddyrannu ar gyfer tasgau unigol ac ar gyfer yr asesiadau

A fydd pob cymhwyster yn cael ei rannu yn 60% asesu dan reolaeth a 40% arholiad allanol?

Bydd.

A ellir cyflwyno'r asesiad mewnol ar amser gwahanol i'r arholiad allanol?

Gellir. Gellir cyflwyno hwn ym mis Ionawr ac ym mis Mai blwyddyn 10 a blwyddyn 11.

A ellir cyflwyno'r asesiad mewnol flwyddyn cyn yr arholiad allanol?

Gellir. Gellir cyflwyno'r asesiadau mewnol ym mis Ionawr neu ym mis Mehefin y flwyddyn astudio gyntaf.

Faint o ddisgyblion fydd yn y sampl ar gyfer unedau mewnol ac allanol?

Yr un rheolau sy'n berthnasol i'r asesiadau mewnol, a fydd wedi'u hamlinellu yn ein Canllaw Gweinyddu. Bydd **pob** myfyriwr yn cael ei asesu gan ein harholwyr ar gyfer unedau allanol.

Graddio

Beth yw'r sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer y cymhwyster hwn?

Bydd y sgôr pwyntiau yn cael ei neilltuo gan Llywodraeth Cymru ar adeg Dynodi ond rydym wedi ehangu'r raddfa graddau i 8 gradd ac felly rydym yn disgwyl y bydd sgorau pwyntiau yn cyfateb i TGAU A*-G.

A fydd y radd y mae'r dysgwr yn ei hennill yn yr uned fewnol yn dal i fod yn gyfyngedig i'r radd isaf a enillwyd ar gyfer maen prawf asesu unigol?

Na fydd. Yn ein Dyfarniadau Galwedigaethol newydd, mae asesiadau mewnlol yn seiliedig ar farciau, yn gydadferol ac nid ydynt bellach yn seiliedig ar feini prawf asesu. Bydd gradd dysgwr yn yr uned(au) mewnlol yn cael ei phennu ar sail ei berfformiad cyfannol ar draws yr asesiadau.

Adnoddau

A fydd angen i ni brynu gwर्सlyfrau newydd?

Y dibynnu ar y pwnc, gallai eich gwर्सlyfrau cyfredol fod yn berthnasol o hyd gan y bydd llawer o'r cynnwys cyfredol wedi'i gynnwys yn y cymwysterau newydd. Byddwn hefyd yn datblygu gwर्सlyfrau newydd sbon ar gyfer pob cymhwyster.

A fydd y gwर्सlyfrau yn rhai digidol fel y gellir cael mynediad atynt drwy Google Classroom/Teams?

Mae hyn yn cael ei drafod ar hyn o bryd o fewn ein sefydliad.

Ble gallaf ddod o hyd i'r llyfrgell o adnoddau addysgu a'r pecyn i ymgeiswyr?

Bydd yr holl adnoddau ar y dudalen we pwnc-benodol a bydd y pecynnau i ymgeiswyr ar gael i'w llwytho i lawr o'r Wefan Ddiogel.

Cwestiynau Pwnc-Benodol

Peirianeg

Pa gynnyrch fyddwn ni'n ei wneud yn Peirianeg? A fydd mwy o gynhyrchion i'w dylunio ar gyfer Uned 1?

Bydd briff yr aseiniad ar gyfer Uned 1 yn newid pob blwyddyn felly bydd dysgwyr yn gwneud cynnyrch gwahanol yn dibynnu ar ba friff sydd wedi'i osod. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad oes gan bob canolfan fynediad at yr un cyfarpar, offer a defnyddiau, ac felly wrth ddylunio'r asesiad, rydym wedi ymgorffori hyblygrwydd sy'n caniatáu i ganolfannau wneud penderfyniadau ynghylch y defnyddiau y gellir eu defnyddio i gynhyrchu'r cynnyrch peirianegol. Felly, er y bydd y cynnyrch ei hun wedi'i ragnodi gan y briff bob blwyddyn, bydd canolfannau'n gallu hwyluso sut mae eu dysgwyr yn mynd ati i'w gynhyrchu mewn ffordd sy'n hylaw ac yn gost effeithiol i ganolfannau flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Lletygarwch ac Arlwyo

Pan ddywedoch chi y byddai'r asesiad mewnol yn 'fwy seiliedig ar waith ymarferol', beth oeddech chi'n ei olygu?

Yn y cymhwyster newydd, mae mwy o bwyslais ar y sgiliau a'r technegau paratoi a choginio. Mae'r technegau wedi'u categorio yn y fanyleb fel sylfaenol, canolig a chymhleth.

A fydd cynnwys y cwrs newydd hwn yn newid yn llwyr o'r Fanyleb Lletygarwch ac Arlwyo yr wyf yn ei haddysgu ar hyn o bryd i fy nysgwyr blwyddyn 10 ac a fydd y newidiadau'n berthnasol iddyn nhw?

Bydd y fanyleb newydd yn cael ei hasesu am y tro cyntaf yn 2024. Bydd dysgwyr sydd ym Mlwyddyn 10 ar hyn o bryd a fydd yn cwblhau eu cymhwyster yn Haf 2022 a'r rhai hynny sy'n dechrau Blwyddyn 10 ym mis Medi ac yn cwblhau eu cymhwyster yn Haf 2023 yn cwblhau'r Fanyleb gyfredol.

Faint o asesiadau ymarferol bwyd sydd i'w cwblhau?

Un asesiad ymarferol sydd yn y fanyleb hon.

TGCh

A fydd Cylchred Oes y Project yn cael ei gynnwys yn yr asesiad mewnol ar gyfer TGCh?

Mae'r asesiad dan reolaeth ar gyfer TGCh yn ymdrin â'r canlynol:

- Cynllunio, creu, addasu a defnyddio cronfeydd data
- Cynllunio, creu, addasu a defnyddio taenlenni
- Cynllunio, creu ac addasu dogfen wedi'i hawtomeiddio
- Cynllunio, creu, trin a storio delweddau

Mae'r tasgau yn cynnwys profi a gwerthuso, felly o ran hynny, ydyn, mae'r tasgau yn dilyn cylchred oes y project, ond nid ydym yn nodi hyn yn benodol yn y fanyleb.

Celfyddydau Perfformio

A yw'r cwrs Celfyddydau Perfformio yn seiliedig ar Ddrama, Dawns neu Gerddoriaeth neu a oes modd dewis unedau arbenigol?

Mae'r manylebau Celfyddydau Perfformio yn galluogi dysgwyr i arbenigo mewn un maes o'r celfyddydau perfformio, neu i ddewis arbenigedd gwahanol ar gyfer pob uned.

Yn Uned 1, gall dysgwyr ddewis o'r canlynol:

- drama
- cerddoriaeth
- technoleg cerddoriaeth
- theatr gerdd

Yn Uned 2, gall dysgwyr ddewis o'r canlynol:

- drama wedi'i dyfeisio
- coreograffi
- cyfansoddi

- cyfansoddi gan ddefnyddio technoleg
- dylunio gwisgoedd
- dylunio goleuo

- dylunio sain
- dylunio colur a gwallt
- dylunio set.